CPS

# Safonau Ansawdd Gwaith Achos

Hydref 2014

# Safonau Ansawdd Gwaith Achos

## Cyflwyniad

Cyhoeddir y safonau hyn gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP).

Y DPP yw pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) sef y prif wasanaeth erlyn cyhoeddus i Gymru a Lloegr. Mae'r DPP yn gweithredu yn annibynnol dan oruchwyliaeth y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd yn San Steffan am waith y CPS.

Y safonau hyn sy'n nodi'r meincnodau ansawdd yr ydym yn ymdrechu i'w cyflawni wrth erlyn troseddau i'r cyhoedd. Mae'r safonau yn ffordd bwysig i ni ddangos ein gwerthoedd i drin pawb â pharch, i fod yn annibynnol a theg, i fod yn ddidwyll ag agored, i ymddwyn yn broffesiynol ac ymdrechu i gael rhagoriaeth.

Mae'r ail argraffiad hwn o'r safonau yn disodli'r ddogfen Safonau Ansawdd Craidd flaenorol o ran gwaith achos ac mae'n sefyll ochr yn ochr a Safonau Ansawdd Ymdrin â Chwynion ac Ymgysylltu Cymunedol.

Gellir cael cyfarwyddyd manwl ar y modd yr ydym yn ymdrin ag agweddau penodol o'n gwaith yn adran Cyfarwyddyd Cyfreithiol ein gwefan yn www.cps.gov.uk.

## Egwyddorion trosfwaol

1. Dylai gwaith pawb sy'n cael ei gyflogi gan y CPS gael ei wneud mewn modd sy'n cyd-fynd â Chod Ymddygiad y CPS a Gwerthoedd y CPS, ac mae'r ddau wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan: www.cps.gov.uk

2. Dylai'r holl waith a wneir fod yn unol â'r egwyddorion trosfwaol hyn a dilyn strategaeth glir a symud yr achos tuag at ganlyniad cyfiawn.

3. Rydym yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ac ymdrin â'n gwaith mewn modd sydd:
    - Yn deg i ddioddefwyr a thystion ac yn unol â Chod y Dioddefwyr
    - Yn deg i'r rhai sydd dan amheuaeth a diffynyddion
    - Yn gymesur â'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni canlyniad cyfiawn
    - Yn ymatebol i bryderon y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu

4. Mae erlynyddion yn gwneud penderfyniadau yn unol â:
    - y gyfraith
    - y Cod i Erlynyddion y Goron
    - cyfarwyddyd a gyhoeddir gan y Twrnai Cyffredinol
    - polisïau a chyfarwyddyd perthnasol a gyhoeddir gan y DPP

## Safon 1: Dioddefwyr, tystion a chymunedau

Rydym yn cydnabod bod troseddau yn cael effaith ar unigolion a chymunedau fel y mae ein gwaith ninnau. Mae'r safon hon yn trafod ein cyfrifoldebau yn y cyswllt hwn.

**Y meincnodau ansawdd yw:**

1. Trin dioddefwyr a thystion â pharch a dealltwriaeth.
2. Erlyn mewn modd sy'n deg i bawb ac yn adlewyrchu budd y cyhoedd yn ehangach.
3. Ystyried hawliau, buddiannau ac anghenion dioddefwyr a thystion.
4. Cymryd camau angenrheidiol i sicrhau bod dioddefwyr yn cymryd rhan, pan fydd hynny'n addas a diogelu eu hawliau yn ystod proses y llys.
5. Ymgynghori pan fydd yn addas gwneud hynny, er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth gywir.
6. Gwneud penderfyniadau cywir, wedi eu rhesymu yn briodol y gellir eu hesbonio i'r rhai y maent yn effeithio arnynt ac y byddant yn eu deall.
7. Cyfathrebu yn effeithiol fel bod dioddefwyr, tystion a chymunedau yn cael y wybodaeth gywir ar yr amser cywir.
8. Herio penderfyniadau llysoedd, gan gynnwys trwy apêl neu adolygiad, pan fydd hynny'n addas.

## Safon 2: Gwneud penderfyniadau cyfreithiol

Mae'r safon hon yn trafod tri maes gwaith:

- Cynghori'r heddlu ac ymchwilwyr eraill
- Penderfynu rhoi caniatâd i gyhuddo neu beidio
- Gwneud ac adolygu penderfyniadau mewn achosion pan fu cyhuddiad

**Y meincnodau ansawdd yn y meysydd gwaith hyn yw:**

1. Rhoi cyngor sy'n cyfrannu at sicrhau bod yr ymchwiliad yn cyrraedd canlyniad priodol ac amserol.

2. Rhoi cyngor amserol ac effeithiol.

3. Gweithredu'r gyfraith a'r Cod i Erlynyddion y Goron yn gywir, ym mhob achos.

4. Gwneud penderfyniadau amserol a ddylid erlyn neu beidio, gan gynnwys a ddylid parhau i erlyn.

5. Gwneud penderfyniadau gyda'r wybodaeth gywir, wedi eu rhesymu yn iawn ac yn ystyried y dystiolaeth allweddol, deunydd heb ei ddefnyddio a'r problemau tebygol.

6. Ffurfio strategaeth erlyn a sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn unol â'r strategaeth, gan gyfrannu at gynnal yr achos yn effeithiol hyd at ganlyniad cyfiawn.

7. Ystyried a chofnodi penderfyniadau yn ddigidol mewn modd sy'n gywir a chymesur fel bod ein sefyllfa yn glir, yn un y gall eraill ei deall, ac yn un all wrthsefyll gael ei herio.

8. Dynodi achosion sy'n ymwneud â "budd" Elw o Droseddau, a gosod strategaeth i atal troseddwyr rhag cadw mantais ariannol sy'n deillio o droseddau.

## Safon 3: Paratoi gwaith achos

Mae'r safon hon yn trafod y gwaith sy'n ymwneud â pharatoi achos ar gyfer y llys.

**Y meincnodau ansawdd yw:**

1. Meddwl ymlaen, rhagweld a datrys problemau.
2. Cymryd yr holl gamau addas i sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael i'r eiriolwr a/neu luniwr penderfyniad ar yr amser cywir, fel bod cynnydd yn digwydd.
3. Cyfathrebu yn brydlon ac effeithiol â dioddefwyr, tystion, yr heddlu, y llysoedd, y diffynnydd a'i gynrychiolwyr ac eraill sy'n dibynnu arnom ni.
4. Cydymffurfio â'n hymrwymiadau gweithdrefnol fel y rhai yn ymwneud â datgelu, a'r rhai a nodir yn y Rheolau Gweithdrefn Droseddol, a dal partïon eraill i gyfrif.
5. Adolygu statws remand y diffynnydd yn barhaus, sicrhau bod achosion â chyfyngiad amser yn y ddalfa yn cael eu trin yn unol â'r safon genedlaethol.
6. Cofnodi'r hyn yr ydym wedi ei wneud yn ddigidol, yn brydlon mewn modd sy'n gywir a chymesur fel bod ein sefyllfa yn glir ac na fydd gwaith yn cael ei ddyblygu.

## Safon 4: Cyflwyno

Mae’r safon hon yn trafod gwaith erlynyddion a pharagyfreithwyr yn y llys. Nid yw hyn wedi ei gyfyngu i ymddangosiad mewn achosion llys: mae’n cynnwys yr holl gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

**Y meincnodau ansawdd yw:**

1. Rheoli’r achos, mynnu hyder y llys a bod yn bendant a rhagweithiol.
2. Cynorthwyo’r llys trwy gydol y broses, gan gynnwys y ddedfryd, bod yn deg a phroffesiynol bob amser.
3. Ymwneud â diffynyddion a’u cynrychiolwyr yn deg ac effeithiol.
4. Paratoi yn briodol fel bod pob gwrandawiad yn symud ymlaen mewn modd addas.
5. Ymwneud yn effeithiol â dioddefwyr a thystion.
6. Deall a chynrychioli buddiannau dioddefwyr, tystion a’r cyhoedd yn briodol.
7. Gwrthwynebu mechnïaeth pan fydd yn addas gwneud hynny, ystyried y risg sy’n cael ei chreu i ddioddefwyr, y cyhoedd a chwrs cyfiawnder.
8. Rhagweld ac ymateb yn effeithiol i heriau.
9. Cyflwyno achos yr erlyniad yn glir, effeithiol ac argyhoeddiadol.
10. Cofnodi digwyddiadau gwrandawiadau llys, canlyniadau a gweithredoedd yn ddigidol, yn brydlon mewn modd sy’n gywir a chymesur fel bod ein sefyllfa yn glir ac na fydd gwaith yn cael ei ddyblygu.